



Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr – 31 Mawrth 2015

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa ac maent hefyd ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

TABL CYNNWYS

1	ARCHWILIADAU	3
2	MATERION ARFEROL.....	3
3	MATERION ANARFEROL.....	5
4	GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO	7
5	NEWYDDION GAN YR ONR.....	7
6	CYSYLLTIADAU.....	9

1 ARCHWILIADAU

1.1 Dyddiadau archwiliadau

Fe gyflawnodd arolygydd safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiad canlynol yn ystod y chwarter:

19, 20, 21, 22, 23 Ionawr 2015
9, 10, 11, 12, 13 Chwefror 2015
16, 17, 18 Chwefror 2015
2, 3, 4, 5 Mawrth 2015

Mynychodd arolygwyr arbenigol Arweinyddiaeth a Rheoli Diogelwch yr ONR gyfarfod trosiant i wagio tanwydd – rhyngwyneb rheoleiddio ar 29 Ionawr 2015.

Mynychodd Arolygydd Safle yr ONR Bwyllgor Ymgynghorol Cynllunio ar gyfer Argyfwng Wylfa a Thrawsfynydd ar 17 Mawrth 2015 ac fe'i cefnogwyd gan Arolygydd Arbenigol Parodwydd ar gyfer Argyfwng ac Ymateb yr ONR.

Mynychodd Arolygydd Safle ac Uwch-arolygydd Safleoedd Magnox yr ONR Adolygiad Blynyddol Wylfa o Ddiogelwch ar 26 a 27 Mawrth 2015.

Mynychodd Arolygydd Safle yr ONR gyfarfod blynyddol Diogelwch Craidd Graffit yr Wylfa gydag arolygwyr arbenigol perthnasol yr ONR ar 31 Mawrth 2015.

2 MATERION ARFEROL

2.1 Archwiliadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- y Ddeddf Ynni 2013;
- y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r archwiliad yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn y cyfnod hwn, cwmpasodd arolygiadau rheolaidd y canlynol:

Archwiliad, cynnal a chadw, arolygu a phrofi;
Rheoli gweithrediadau, gan gynnwys rheoli a goruchwyllo;
Hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad staff;
Addasiadau i beiriannau, offer ac achosion diogelwch;
Parodwydd ar gyfer argyfwng;
Digwyddiadau ar y safle;
Rheoli gwastraff ymbelydrol;
Adolygiad cyfnodol o ddiogelwch.

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Ble'r ystyriwyd bod

gwelliannau yn angenrheidiol, gwnaeth y trwyddedai ymroddiadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

Adolygiad o Gyfarfod Diogelwch.

Cynhaliodd yr ONR adolygiad o gyfarfod diogelwch gyda gorsaf yn ystod y cyfnod. Roedd y cyfarfod yn gyfle iddynt gyflwyno adolygiad o weithgaredd yn ymwneud â diogelwch yn Wylfa yn ystod y cyfnod diwethaf, ac i edrych ymlaen at welliannau diogelwch a gynigiwyd ar gyfer y cyfnod i ddod. Ar y cyfan, darparodd yr orsaf adroddiad cynhwysfawr ar gynnydd ar weithgareddau yn ymwneud â diogelwch, ac ymroi i wella diogelwch ble fo'n bosibl yn ystod y cyfnod gweithredu nesaf. Fel cyfraniad i'r broses adolygiad cyfarfod, cyflawnodd yr ONR archwiliad o gyfleusterau ar y safle a chynnal cyfarfod gyda chynrychiolwyr diogelwch y safle. Bydd yr ONR yn adolygu cynnydd gyda'r ymrwymadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfarfod yn yr adolygiad nesaf o ddiogelwch yng ngorsaf bŵer Wylfa.

Archwiliadau System Ddiogelwch

Mae'r ONR yn cynnwys arolygiadau o'r systemau sy'n cyfrannu at ddiogelwch adweithyddion gweithredol yn ychwanegol at archwiliadau cydymffurfio yn seiliedig ar yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded safle niwclear. Mae'r safle niwclear yn gofyn i'r holl safleoedd trwyddedig gael achos diogelwch parthed unrhyw weithrediadau a allai effeithio ar ddiogelwch. Ar gyfer yr adweithydd Magnox sy'n parhau'n weithredol yng ngorsaf bŵer Wylfa, nodwyd 30 o systemau i fod yn sail i archwilio systemau diogelwch er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r hawliadau a wneir arnynt gan yr achos diogelwch. Y bwriad yw archwilio diogelwch y systemau diogelwch perthnasol a nodir ar y safle yn systematig dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r ONR o'r farn y bydd yr ymagwedd hon yn darparu'r lefel ofynnol o sicrwydd y bodlonir gofynion yr achos diogelwch a bod y safle yn cael ei weithredu'n ddiogel.

Y chwarter hwn, y systemau diogelwch a arolygwyd oedd: systemau trin tanwydd a systemau diogelwch tân. Ar sail yr arolygiadau, pennwyd bod y systemau yn cael eu gweithredu a chynnal yn unol â gofynion yr achos diogelwch. Ble nodwyd meysydd i'w gwella, addawodd yr orsaf y byddai'n cymryd camau priodol i ddelio â'r rhain. Bydd yr ONR yn monitro cynnydd i gwblhau'r gwaith a gytunwyd.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach arolygiadau system yr ONR yng ngorsaf bŵer Wylfa a safleoedd trwyddedig niwclear eraill yn: www.onr.org.uk/intervention-records/index.htm

Cyfarfod Achos Diogelwch Craidd Graffit Wylfa

Arweiniodd Adolygiad Diogelwch Cyfnodol 2004 Wylfa i'r ONR gyhoeddi llythyr penderfyniad yn datgan y gofyniad i Magnox Ltd gyflawni adolygiad blynyddol o'r achos diogelwch craidd graffit nes y darparwyd achos diogelwch digonol yn cefnogi gweithrediad diogel parhaus hyd ddiwedd cynhyrchu. Ers cyflwyno'r gofyniad hwnnw, mae Magnox Ltd wedi cynhyrchu adolygiad blynyddol o'r achos diogelwch craidd graffit ac roedd y cyfarfod hwn i drafod yr atodiad diweddaraf.

Mae'r adolygiad a gyflawnwyd gan Magnox Ltd yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion annisgwyl wedi codi yn y flwyddyn ddiwethaf a bod craidd Adweithydd 1 yn parhau i allu darparu ei swyddogaeth ddylunio ar gyfer gweddill y cyfnod cynhyrchu.

Mae diffodd parhaol arfaethedig Adweithydd 1 yn Rhagfyr 2015 yn golygu y bydd y gofyniad ar Magnox Ltd i berfformio adolygiad blynyddol o'r achos diogelwch craidd graffit yn dod i ben. Hefyd, cynigiodd Magnox Ltd na ddylid cyflwyno adolygiad blynyddol ar ddiwedd 2015 ac y delir ag unrhyw ganlyniadau afreolaidd o ddadansoddiadau, monitro neu archwiliadau mewn cyflwyniad diogelwch priodol. Mae'r ONR yn fodlon â'r safbwynt hwn ac yn cytuno na fydd angen unrhyw adolygiadau pellach.

2.2 Gwaith arall

Cynrychiolwyr Diogelwch Safle

Cynhaliodd Arolygydd y Safle gyfarfod cyfnodol gyda chynrychiolwyr diogelwch, i gefnogi ei swyddogaeth o gynrychioli cyflogeion a derbyn gwybodaeth ar faterion yn effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

Trosiant i Wagio Tanwydd – Cyfarfod Rhyngwyneb Rheoleiddiol

Cynlluniwyd y cyfarfod hwn gan Wylfa er mwyn darparu rheolyddion o'r ONR ac Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyfoeth Naturiol Cymru â diweddariad ar eu Rhaglen Trosiant Gwagio Tanwydd yn cynnwys newid sefydliadol. Darparodd y cyfarfod ddiweddariadau ar adolygiadau presennol o strwythur gwagio tanwydd arfaethedig yn dilyn sefydlu gweithgor newydd Magnox Ltd. Hyd yn hyn nid yw Magnox Ltd wedi cadarnhau strwythur terfynol ar gyfer gweithrediadau gwagio tanwydd Wylfa ac mae'r ONR yn disgwyl y bydd hyn yn cael ei gadarnhau yn ystod y chwarter dilynol. Barnwyd fod y cyfarfod yn waith ymgysylltu gwerthfawr ac yn gyfle i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ddisgwyliadau rheoleiddio yn ystod trosiant. Byddwn yn parhau i gyflawni gwaith ymgysylltu â'r safle ar y pwnc hwn yn chwarterol.

Pwllgor Ymgynghori Cynllunio ar gyfer Argyfwng Wylfa a Thrawsfynydd

Mynychodd Arolygydd Safle'r ONR gyfarfod o bwyllgor ymgynghori cynllunio ar gyfer argyfwng yr orsaf. Roedd y cyfarfod yn gyfle i'r ONR arsylwi ar fusnes y cyfarfod, ac ateb unrhyw gwestiynau yn ymwneud â rheoleiddio trefniadau argyfwng yng ngorsaf bŵer Wylfa. Rhoddodd Arolygydd Arbenigol yr ONR ar gyfer Parodwydd mewn Argyfwng ac Ymateb gyflwyniad ar y broses reoleiddio gyffredol i bennu meysydd cynllunio ar gyfer argyfwng.

Ail-drwyddedu Safleoedd Harwell a Winfrith i Magnox Limited

AR 1 Medi 2014, trosglwyddwyd perchnogaeth Magnox Ltd a Research Sites Restoration Limited (RSRL) gan yr Awdurdod datgomisiynu Niwclear i Cavendish Fluor Partnership Limited, y Sefydliad Corff Rhiant (PBO) newydd. Ar y pryd, roedd deg o safleoedd adweithyddion Magnox yn drwyddedig i Magnox Ltd a safleoedd Harwell a Winfrith, yn Swydd Rhydychen a Dorset yn y drefn honno, wedi eu trwyddedu i RSRL. Yn rhan o strategaeth newydd sefydliadol y PBO newydd, ar 28 Tachwedd 2014 gwnaeth Magnox Ltd ac RSRL gais i'r ONR i ail-drwyddedu safleoedd Harwell a Winfrith i Magnox Ltd.

Cyflawnodd yr ONR asesiad targedig a chymesur o'r ceisiadau hyn yn unol â'i gyhoeddiad 'Trwyddedu Gosodiadau Niwclear' ac ar 30 Mawrth 2015 fe ganiataodd y Prif Arolygydd Niwclear, Andy Hall, drwyddedau safle niwclear newydd i Magnox Ltd ar gyfer safleoedd Harwell a Winfrith. Roedd y trwyddedau newydd hyn i ddod i rym ar 1 Ebrill 2015, felly o'r dyddiad hwnnw, mae safleoedd Harwell a Winfrith wedi eu trwyddedu i Magnox Ltd, ynghyd â'r deg safle adweithydd presennol Magnox. Bydd Adroddiad Asesiad Prosiect yr ONR yn ymwneud â'r ail-drwyddedu hwn yn cael ei gyhoeddi ar [wefan](#) yr ONR.

Gyda 12 o safleoedd nawr dan reolaeth Magnox Ltd fel un trwyddedai, bydd y PBO, yn amodol i newid sefydliadol pellach, yn gallu cyflawni gweithgareddau datgomisiynu a lleihau peryglon ar draws y safleoedd datgomisiynu yn defnyddio ymagwedd raglennol, ble bydd dulliau datgomisiynu cyffredin yn cael eu gweithredu mewn gwahanol safleoedd.

Mae gan Magnox Ltd gynlluniau ar gyfer newidiadau sefydliadol pellach a chyflwyno system reoli unedig ar draws y 12 safle, a fydd yn arwain at drefniadau cyffredin ar gyfer cydymffurfiad ag amodau trwyddedu'r ONR. Bydd y newidiadau sefydliadol hyn a newidiadau i drefniadau cydymffurfiad amod trwydded y trwyddedai yn destun asesiad priodol a goruchwyliaeth gan yr ONR yn y misoedd i ddod.

3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Materion penodol i'w nodi yn ystod y cyfnod oedd:

Adweithydd 1 – Anawsterau Ail-lenwi

Wrth geisio gwagio tanwydd o Adweithydd 1, nid oedd yn bosibl caffael cefnogaeth cipiwr. Cafodd y cipiwr ei archwilio heb ganfod unrhyw wallau, ac fe gychwynnwyd y clo BCD i fonitro cyfrifon a thymheredd sianelau, heb weld unrhyw anomaleddau, felly fe ail-lenwyd dwy sianel arall heb broblemau ymgysylltu cipiwr. Galwyd Cyfarfod Penderfyniad Gweithredol gan Gyfarwyddwr y Safle ar ddydd Sul 8 Mawrth i drafod y posibilid o naill ai elfen fwaog neu sbwriel yn y sianel. Penderfynwyd cyflawni diffodd wedi ei reoli o Adweithydd 1 i ganiatáu ar gyfer cynnal archwiliadau camera yn defnyddio'r Teclyn Codi Teledu. Trafodwyd y mater rhwng Arolygydd Safle'r ONR a rheolwr achos diogelwch yr orsaf. Cadarnhaodd yr ONR nad oedd risg i ddiogelwch niwclear a bod Magnox Ltd yn gweithredu yn geidwadol ac ymarferol. Diweddarwyd Arolygydd Safle'r ONR yn rheolaidd gan Magnox Ltd ar y mater hwn yn ystod yr archwiliad, ail-lenwi a'r dychwiliad dilynol i wasanaeth.

Adweithydd 1 – Digwyddiad Pad Cefnogaeth Tryledwr Cylchredwr Nwy

O ganlyniad i weithredoedd gofynnol i ymchwilio i dymheredd Dŵr Oeri Llestr Gwasgedd (PVCW) uchel ar Badiau Cefnogaeth Tryledwr Cylchredwr Nwy Adweithydd 1, canfuwyd nad oedd y rhan fwyaf o falgiau diffodd y Pad Cefnogi Tryledwr (dau i bob cylchredwr) yn selio'r ddigonol pan oeddynt wedi eu cau. Cynullwyd Cyfarfod Penderfyniad Gweithredol a phenderfynwyd cynhyrchu "cyfiawnhad dros barhad gweithrediad" (JCO) ac achos diogelwch wedi ei gategoreiddio'n briodol wedi hynny. Trafododd Arolygydd Safle'r ONR y mater hwn gyda Rheolwr Safle Wylfa. Penderfynodd yr ONR fonitro ymchwiliad Magnox Ltd a nodi gwelliannau yn dilyn hynny. Casglodd arolwg o'r graddiad INES gan swyddog graddio INES y Deyrnas Unedig y dylid categorio'r digwyddiad yn INES 1 yn hytrach nag INES 0 (mae'r Raddfa Digwyddiad Niwclear a Radiolegol Rhyngwladol (INES) yn offeryn ar gyfer cyfathrebu'r brydlon â'r cyhoedd mewn modd cyson arwyddocâd diogelwch digwyddiadau a damweiniau niwclear a radiolegol a adroddwyd. Ar y raddfa hon, nid oes gan INES 0 arwyddocâd diogelwch niwclear ac fe ystyrir INES 1 i fod yn anomaledd.). Mae'r safle wedi cadarnhau ei gytundeb ers hynny â'r penderfyniad hwn ynghyd ag archwiliad dilynol gan yr ONR, yn ystod Ebrill, o ymchwiliad Magnox Ltd ac fe gyflawnir ymateb dilynol o safbwynt ffactorau dynol i gadarnhau bod risgiau y bydd hyn yn digwydd eto mor isel â phosibl.

Methiant Cydgloi Cell 1 Storfa Sych

Yn ystod gwaith cynnal a chadw rheolaidd o Gell Storfa Sych (DSC) 1, mae'r Cyfarwyddyd Cynnal a Chadw Eitem Gwaith plwg 15" yn gofyn am brofi'r plwg 5" a chydglo falgiau giât storfa. Wrth gyflawni'r gwiriadau hyn, fe nodwyd ei bod yn bosibl agor falf giât y storfa gyda'r plwg 5" wedi ei dynnu. Mae hyn yn fethiant yn y cydglo, dim ond os yw'r plwg 5" wedi ei osod neu'r plymiwr trechu cydglo wedi ei wasgu y dylid gallu agor falf giât y storfa. Wedi ymchwilio, canfuwyd bod y plymiwr a osodwyd gyda phlwg wedi gaffael gan atal y falf giât storfa rhag cloi i mewn i'r safle wedi cloi. Unionwyd cydglo cau 15" DSC1 a'i brofi. Mae addasiadau PIMI yn mynd rhagddynt. Trafododd Arolygydd Safle'r ONR y digwyddiad gyda Rheolwr Peirianeg Wylfa a chadarnhau i'r safle ymateb yn briodol ac nad oedd effaith ar ddiogelwch niwclear.

Gwall yn y System Cofnodi Tanwydd

Arweiniodd gwall meddalwedd yn System Cofnodion Tanwydd Wylfa at dangyfrifo arbelydriadau o dros 4000 elfen tanwydd o un mis o losgiad. Mae'r rhan fwyaf o'r tanwydd hwn eisoes wedi ei anfon i Sellafield (3548 o elfennau). Nid oes unrhyw wall o ran cyfrifo lleoliadau corfforol yr elfennau tanwydd a dim effaith ar ddiogelwch niwclear. Cynhaliwyd cynhadledd ffôn ar 16 Ionawr gyda swyddogion Diogelu'r ONR, Wylfa a chynghorydd corfforaethol mesurau diogelwch Magnox ble amlygwyd graddfa'r broblem a'r gofyniad adnodd arwyddocaol posibl i unioni'r cofnodion a effeithiwyd. Mae'r ONR wedi darparu Sellafield, a allai fod wedi ei effeithio gan y cyfrifiadau llosgiad anghywir, â chrynodeb o'r

mater ac Euratom â diweddariadau rheolaidd a chopi o adroddiad yr ymchwiliad dros dro (disgwyliar y bydd yr adroddiad terfynol ar gael yn Ebrill 2015). Mae'r ymchwiliad parhaus wedi datgelu i'r gwall gael ei gyflwyno yn ystod uwchraddiad yn 2005. Bydd yr ONR yn darparu diweddariadau pellach i'r Cyfarwyddiaethau E4 ac E5 Euratom a Sellafield. Mae Wylfa wedi cyflwyno'r Adroddiad Ymchwiliad Digwyddiad Dros Dro. Darparwyd copïau i'r ONR ac Euratom. Bydd Wylfa yn parhau i ddiweddarau'r ONR wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen. Barn swyddogion Diogelu'r ONR yw y dylid lleihau unrhyw effaith yn Wylfa, gan gydnabod y gallai peidio cyflawni unioniadau fod yr opsiwn fwyaf addas; ni ddylai fod yna unrhyw effaith ymlaen ar gyfer Sellafield. Cyflwynwyd newid yn y gweithdrefnau gweithredu i sicrhau bod yr FRS wedi ei ddiweddarau'n gywir gyda'r holl ffigurau llosgiad, gan y bydd unrhyw unioniad i'r gwall meddalwedd yn cymryd o leiaf sawl mis.

4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

- Ni chyhoeddwyd unrhyw Offerynnau Trwydded na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod.

5 NEWYDDION GAN YR ONR

5.1 Ail-drwyddedu Safleoedd Harwell a Winfrith i Magnox Ltd

AR 1 Medi 2014, trosglwyddwyd perchnogaeth Magnox Ltd a Research Sites Restoration Limited (RSRL) gan yr Awdurdod datgomisiynu Niwclear i Cavendish Fluor Partnership Limited, y Sefydliad Corff Rhiant (PBO) newydd. Ar y pryd, roedd deg o safleoedd adweithyddion Magnox yn drwyddedig i Magnox Ltd a safleoedd Harwell a Winfrith, yn Swydd Rhydychen a Dorset yn y drefn honno, wedi eu trwyddedu i RSRL. Yn rhan o strategaeth newydd sefydliadol y PBO newydd, ar 28 Tachwedd 2014 gwnaeth Magnox Ltd ac RSRL gais i'r ONR i ail-drwyddedu safleoedd Harwell a Winfrith i Magnox Ltd.

Cyflawnodd yr ONR asesiad targedig a chymesur o'r ceisiadau hyn yn unol â'i gyhoeddiad 'Trwyddedu Gosodiadau Niwclear' ac ar 30 Mawrth 2015 fe ganiataodd y Prif Arolygydd Niwclear, Andy Hall, drwyddedau safle niwclear newydd i Magnox Ltd ar gyfer safleoedd Harwell a Winfrith. Daeth y trwyddedau newydd hyn i rym ar 1 Ebrill 2015, felly o'r dyddiad hwnnw, trwyddedwyd safleoedd Harwell a Winfrith i Magnox Ltd, ynghyd â'r deg safle adweithydd presennol Magnox. Bydd Adroddiad Asesiad Prosiect yr ONR yn ymwneud â'r ail-drwyddedu hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ONR.

Gyda 12 o safleoedd nawr dan reolaeth Magnox Ltd fel un trwyddedai, bydd y PBO, yn amodol i newid sefydliadol pellach, yn gallu cyflawni gweithgareddau datgomisiynu a lleihau peryglon ar draws y safleoedd datgomisiynu yn defnyddio ymagwedd raglennol, ble bydd dulliau datgomisiynu cyffredin yn cael eu gweithredu mewn gwahanol safleoedd.

Mae gan Magnox Ltd gynlluniau ar gyfer newidiadau sefydliadol pellach a chyflwyno system reoli unedig ar draws y 12 safle, a fydd yn arwain at drefniadau cyffredin ar gyfer cydymffurfriad ag amodau trwyddedu'r ONR. Bydd y newidiadau sefydliadol hyn a newidiadau i drefniadau cydymffurfriad amod trwydded y trwyddedai yn destun asesiad priodol a goruchwyliaeth gan yr ONR yn y misoedd i ddod.

5.2 Cynllun Blynyddol yr ONR

Mae'r ONR wedi cyhoeddi ei [Gynllun Blynyddol ar gyfer 2015/16](#), gan sefydlu ei flaenoriaethau, yn ogystal â darparu manylion gweithgareddau arfaethedig a thargedau allweddol y flwyddyn.

5.3 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r ONR yn y broses o gynhyrchu ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyntaf fel corfforaeth gyhoeddus. Bydd yn cael ei gyflwyno gerbron y Senedd ym Mehefin 2015. Mae'r adroddiad yn cyflwyno trosolwg o'n blwyddyn gyntaf, yn cynnwys cyflawniadau, rheolaeth ariannol a Datganiad blynyddol y Prif Arolygydd Niwclear.

Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheolydd annibynnol i'r diwydiant niwclear yng nghanolfan newyddion gwefan yr ONR (<http://news.onr.org.uk>) ac yn Newyddion Chwarterol yr ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/onr-quarterly-report.htm>) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol yn ONR. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, ewch i'r wefan a chofrestrwch ar gyfer eich e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

6 CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersi
L20 7HS

gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015

Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright am fanylion.

Cyhoeddwyd 05/15

Ar gyfer dogfennau cyhoeddus, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.